



## Croeso

### Croeso i rifyn yr haf o Gylchlythyr y Rhaglen Ddatgarboneiddio sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf ar draws y Rhaglen

Yn fuan wedi cyhoeddi [Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel](#), cafwyd datganiad o argyfwng hinsawdd gan Lywodraeth Cymru. Dilynwyd hyn gan y Cynulliad Cenedlaethol yn dod y Senedd gyntaf yn y byd i bleidleisio i gefnogi datganiad o'r fath.

Ym mis Mehefin, gan ystyried ein datganiad, derbyniodd Llywodraeth Cymru gyngor Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd am ostyngiad o 95% mewn allyriadau erbyn 2050, a hefyd ymrwmo i fynd hyd yn oed ymhellach a chyrraedd allyriadau sero net erbyn 2050 ar yr hwyraf. Darllenwch i wybod mwy:

## Argyfwng Hinsawdd


Cafwyd datganiad [Argyfwng Hinsawdd](#) ar 29 Ebrill i ddefnyddio'r momentwm hwn ac i ysgogi a sbarduno gweithredu ledled Cymru ac ymhellach i ateb yr her. Ar 1 Mai Cynulliad Cenedlaethol Cymru oedd y senedd gyntaf yn y byd i basio'r datganiad Argyfwng Hinsawdd. Y cam nesaf i fynd i'r afael â'r argyfwng yw i godi ein huchelgais drwy gynyddu ein targedau deddfwriaethol.

Dangoswyd ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd ar 11 Mehefin gan dderbyn argymhellion Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd am ostyngiad o 95% yng Nghymru. Mae hyn yn dangos cyfraniad teg Cymru at ymrwymiad y DU o dan Gytundeb Paris. Gwnaethom ddatganiad hefyd i fynd ymhellach a chyrraedd targed net sero erbyn 2050. Ewch i [Twitter](#) i weld beth arall rydym wedi gwneud.

Mae angen inni i gyd weithredu - ni fydd y gweithredu gan Lywodraeth Cymru yn ddigon i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

**A yw eich sefydliad, cyngor neu fusnes hefyd wedi datgan argyfwng hinsawdd.**

**Awdurdodau lleol, cyngorau tref a chymuned sydd wedi datgan bod argyfwng hinsawdd yng Nghymru**



Gadewch inni wybod hyn drwy anfon manylion at ein Blwch Negeseuon E-bost Datgarboneiddio.

Byddwn yn defnyddio ein cynhadledd yn yr hydref i helpu i gasglu syniadau ledled Cymru ar gyfer gweithredu .

## Pwyllgor y DU ar gyngor ar y Newid yn yr Hinsawdd

Mewn ymateb i gais oddi wrth Lywodraethau Cymru, yr Alban a'r DU i ailasesu targedau allyriadau hirdymor y DU, cyhoeddodd y CCC 'Net Zero- The UK's contribution to stopping global warming' [ar 2 Mai](#). Prif argymhelliad y Pwyllgor yw y dylid mabwysiadu targed i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr y DU i sero net erbyn 2050. Er mwyn cyrraedd y targed hwn, eu cyngor yw y dylai

Llywodraeth Cymru fabwysiadu targed o leihau allyriadau o leiaf 95% erbyn 2050, o'i gymharu â llinell sylfaen 1990. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi pennu targed i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 'o leiaf 80%' yn 2050, yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru). Y cyngor gan y CCC yw i godi'r targed o 80% i 95%.

Ar 11 Mehefin derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad CCC er mwyn dangos bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau'r gostyngiad sydd ei angen mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr er mwyn inni fedru gwneud ein cyfraniad at gyrraedd targed o sero net ar gyfer y DU. Bydd y rheoliadau yn cael eu gwneud yn y Cynulliad y flwyddyn nesaf i newid targed presennol 2050 i 95%. Ar yr un pryd, byddaf yn cyflwyno rheoliadau i bennu'n trydedd gyllideb garbon ac i ddiwygio'n targedau interim a'n cyllidebau presennol yn ôl y gofyn.

## Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel

Fis diwethaf, cyhoeddwyd Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, sy'n cynnwys proffiliau manwl o allyriadau fesul sector a 100 o bolisiau a chynigion i sicrhau Cymru carbon isel.

Mae'r cynllun yn nodi'n safbwynt yn gwbl glir – rydym yn credu bod yn rhaid inni fod yn fwyfwy uchelgeisiol er mwyn ymateb i her y newid yn yr hinsawdd ac er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl i lesiant Cymru drwy newid i economi carbon isel.

Bydd y Cynllun cyntaf yn sicrhau ein bod yn cyrraedd ein targed allyriadau ar gyfer 2020 ac yn gosod y sylfaen ar gyfer yr ymdrechion pellach yr ydym yn dechrau eu cynhyrchu. Mae crynodeb o ffeithluniau y Cynllun a'r daenlen ffeithiau atodol ar gyfer pob sector bellach ar gael [yma](#).

## Ymateb i'r Ymgynghoriad

Y llynedd cafwyd ymgynghoriad ar amrywiol gamau posibl i ddatgarboneiddio Cymru erbyn 2030. Roedd gennym 220 o ymatebion o sylwedd ac ym mis Ebrill cyhoeddwyd [crynodeb o'r hyn y mae pobl wedi ei ddweud wrthym](#). Mae ein hymatebion i'r ymgynghoriad yma.

## Y Cynnydd tuag at Leihau Allyriadau

Rydym yn gwneud cynnydd da tuag at ein targed ar gyfer 2020. Mae data a gyhoeddwyd gennym ar 11 Mehefin yn dangos ein bod wedi sicrhau gostyngiad o 25% o gymharu â 1990. Mae hwn yn welliant mawr ar 2016, yn bennaf oherwydd gostyngiad ym maes cynhyrchu pŵer glo.

## Newyddion o'r Gwladwriaethau a'r Rhanbarthau

Yn dilyn trafodaethau gyda Cymru Catalonia fel rhan o Grŵp yr Hinsawdd cafwyd datganiad o Argyfwng Hinsawdd ar 14 Mai 2019. Mewn datganiad i'r wasg dywedwyd bod Llywodraeth Catalonia wedi dewis ymuno â sefydliadau gwleidyddol y byd sydd wedi datgan yn ffurfiol bod argyfwng hinsawdd ac amgylcheddol, gyda'r bwriad o gyflawni amcanion lliniaru ac addasu". Am ragor o wybodaeth cliwch [yma](#).

## Cynhadledd newid hinsawdd

Cynhelir Cynhadledd Newid Hinsawdd yr hydref ar 16 Hydref. Bydd rhagor o wybodaeth am y Gynhadledd a sut i gofrestru eich diddordeb i fod yn bresennol ar gael dros yr haf.

## Pobl ifanc

Rydym eisoes yn cydweithio ac yn cynnwys pobl ifanc mewn sawl ffordd. Eleni, wrth baratoi ar gyfer Cynhadledd y Partïon 25 (COP25), rydym am weld mwy o bobl ifanc yn dysgu am y newid yn yr hinsawdd. Mae Maint Cymru yn cynnal rhaglen o bum digwyddiad ffug COP ledled Cymru, yn debyg i sgysiau COP y Cenhedloedd Unedig, lle mae gwahanol wledydd yn dod at ei gilydd i edrych ar sut y gallant leihau eu hallyriadau ar y cyd. Y nod yw sicrhau bod 50-80 o ysgolion uwchradd Cymru yn cael eu cynrychioli, gyda'r digwyddiad olaf yn cael ei gynnal ym mis Tachwedd. Drwy'r rhaglen waith hon byddant yn ceisio nodi a datblygu "Hyrwyddwyr Newid yn yr Hinsawdd" ieuencid yng Nghymru gan ddangos sut y gall pobl ifanc ledled Cymru gael llais a helpu i wneud y newidiadau sydd eu hangen. Gellir cael mwy o wybodaeth ar eu [gwefan](#).

## Newyddion arall

[Adroddiad blynyddol](#) y CCC sy'n asesu cynnydd o ran lleihau allyriadau y DU.

Bu i'r Grŵp Cynghori ar Ddatgarboneiddio Cartrefi gyflwyno ei adroddiad i Weinidogion Cymru ar 18 Gorffennaf. Mae'r adroddiad i'w weld [yma](#).

Mae Datganiadau Ysgrifenedig a Llafar wedi'u cyhoeddi ers mis Mawrth yn cynnwys:

- [Cyngor Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd ar ein targed allyriadau hirdymor](#)
- [Llywodraeth Cymru yn datgan ei bod yn Argyfwng Hinsawdd](#)
- [Datganiad Llafar ar Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Ise!](#)

## Digwyddiadau ar y Gweill

- Mae'r Ganolfan Newid yn yr Hinsawdd a Thrawsnewidiadau Cymdeithasol yn lansio ar 18 Medi
- 11fed Wythnos Flynyddol yr Hinsawdd yn Efrog Newydd - 23-27 Medi
- Cynhadledd y Partion 25 - Santiago, Chile - 2-13 Rhagfyr

### Manylion Cysylltu:

**Ebost** – [Decarbonisationmailbox@gov.wales](mailto:Decarbonisationmailbox@gov.wales)

**Cyfeiriad** - Y Tîm Datgarboneiddio, 3ydd Llawr, Parc Cathays 2, CF10 3NQ CF10 3NQ

Am rifau blaenorol y cylchlythyr anfonwch ebost atom ni.